Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – Tanau Gwyllt

22 Hydref 2026

Eitem 5 ar yr Agenda – Ymateb mewn argyfwng

Parodrwydd am danau gwyllt a pharodrwydd ehangach yng Nghymru

Mae'r papur hwn yn cynnwys pwyntiau allweddol i gefnogi trafodaeth o dan eitem 5 ar yr agenda ac ystyried sut gallwn wella ein gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt yng Nghymru a bod yn fwy parod amdanynt. Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol feddwl am y materion a godir a nodi camau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith ar ôl yr Uwchgynhadledd. Wrth wneud hynny, anogir y rhai sy'n bresennol i adeiladu ar weithgarwch, partneriaethau ac arferion da sydd eisoes ar waith ledled Cymru a'r tu hwnt, gan helpu i osgoi dyblygu a chefnogi dull gweithredu cydlynol.

Capasiti a gallu

Roedd tanau gwyllt yr haf yma wedi ymestyn capasiti'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac ymatebwyr eraill i'r eithaf. Ganol mis Awst, dim ond llond llaw o gerbydau oedd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru i ymateb i ddigwyddiadau nad oeddent yn danau gwyllt. O'r herwydd, roedd yn rhaid iddo ddibynnu ar gymorth Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a Lloegr, a'r Fyddin. Roedd pwysau mewn mannau eraill hefyd yn golygu y bu'n rhaid dargyfeirio llawer iawn o adnoddau o dasgau eraill. Cafodd llawer o'r ymateb ei ddarparu gan ddiffoddwyr tân wrth gefn a gafodd eu galw o gartref neu o'r gwaith.

Mae hynny'n codi materion o ran capasiti – cyfanswm y bobl a'r adnoddau eraill sydd ar gael i ymatebwyr. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod y dyfodol sydd o'n blaenau, nid yw'r ateb yn syml. Er ei bod yn rhesymol i ni ddisgwyl tywydd crasboeth mewn hafau i ddod, gallwn hefyd ddisgwyl llifogydd, sychder ac amgylchiadau ehangach eraill ac sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac mae'n rhaid i ni sicrhau gwydnwch yn erbyn y rheini hefyd. Mae cwestiynau pwysig am beth fyddai swyddogaeth llawer o adnoddau ychwanegol os ydy'r hyn a wynebwn yn dymhorol a dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn byddai angen adnoddau ychwanegol.

Mae yna faterion sy'n ymwneud â gallu hefyd. Mae diffodd tanau gwyllt yn wahanol iawn i ddiffodd tân mewn adeilad. Mae'n galw am wahanol weithdrefnau, tactegau, sgiliau, cerbydau a chyfarpar ac mae'n golygu bod diffoddwyr tân yn agored i wahanol risgiau. Er enghraifft, nid yw cerbydau tân rheng flaen wedi'u cynllunio i'w defnyddio oddi ar y ffordd, ac mae'r cyfarpar diogelu personol safonol mae diffoddwyr tân yn ei ddefnyddio yn rhy swmpus i'w wisgo ar dir serth. Mae cerbydau a chyfarpar diogelu personol mwy addas ar gael: ond a oes digon ohonynt a digon o hyfforddiant ar sut mae eu defnyddio.

Roedd llawer o sôn dros yr haf am y diffyg gallu i ddiffodd tanau o'r awyr. Mae hon yn broblem ar draws y DU: ar hyn o bryd nid oes gallu milwrol yn y DU a dim ond ychydig o hofrenyddion a pheilotiaid masnachol sy'n gallu gwneud y gwaith hwn, ac roedd y galw amdanynt yn uwch o lawer na'r cyflenwad ar draws y DU am nifer o wythnosau. Er ei bod hi efallai'n bosibl gwella'r trefniadau contractiol sydd ar waith yma, bydd datrysiad hirdymor bron yn sicr yn golygu tyfu'r farchnad ar lefel y DU, a/neu ddatblygu gallu milwrol i ddiffodd tanau o'r awyr. Mae hynny'n arwain at drafodaethau gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill, sydd

eisoes yn mynd rhagddynt. Nid yw'n broblem y gallwn ei datrys yn yr uwchgynhadledd hon.

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol feddwl am gapasiti a gallu'r ymatebwyr brys a phartneriaid, a pha gamau byddai eu hangen i sicrhau gwydnwch yn erbyn y cyfraddau tebygol o danau gwyllt yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys lefelau cyffredinol adnoddau dynol, cerbydau a chyfarpar; hyfforddiant a dysgu o arferion da; dosbarthu asedau ar draws Cymru; a'r trefniadau ar gyfer eu lleoli a'u defnyddio. Gellir hefyd ystyried sut byddai paratoi am danau gwyllt yn cefnogi parodrwydd ar gyfer gwydnwch ehangach.

Fel rhan o hynny, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried, o safbwynt eu sefydliad eu hunain, pa dechnoleg, data, cyfarpar neu allu arbenigol allai gefnogi atal tanau gwyllt ac ymateb iddynt. Dylai hyn gynnwys sut gellid rhannu neu ddefnyddio asedau sydd eisoes ar gael ar y cyd fel rhan o ddull amlasiantaethol. Er enghraifft, defnyddiwyd cymorth dronau'r heddlu yn ystod y tanau diweddar i wella'r ymwybyddiaeth o'r sefyllfa.

Gwydnwch Cymunedol

Mae gan ffermwyr, cominwyr a thirfeddianwyr wybodaeth ac asedau lleol gwerthfawr, gan gynnwys cyfarpar, cerbydau, tanceri dŵr, peiriannau, arbenigedd pori a llwybrau mynediad. Roedd llawer wedi cefnogi'r ymateb i'r tanau gwyllt diweddar, yn yr un modd ag unigolion a grwpiau cymunedol eraill, yn aml ar gost bersonol sylweddol.

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried a oes lle i ffurfioli ac i wella'r mathau hyn o drefniadau. Yn aml, y rhai sy'n gweithio ar y tir fydd y cyntaf i ganfod tân gwyllt, a bydd ganddynt lawer o adnoddau, arbenigedd a gwybodaeth sy'n gallu helpu i ddiffodd tân. Gallai hyn olygu rhyw fath o rwydwaith o unigolion a phartïon sydd â diddordeb, gyda chefnogaeth y gwasanaethau brys a'r llywodraeth, er mwyn diffinio rolau a chyfrifoldebau, sefydlu sianeli cyfathrebu clir a thalu iawndal i'r rhai sy'n darparu cyfarpar a cherbydau.

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried sut gallai cymunedau gefnogi parodrwydd am danau gwyllt a'r ymateb iddynt, gan adeiladu ar wybodaeth, rhwydweithiau ac asedau lleol sydd eisoes yn bodoli. Dylai hyn gynnwys adnabod pa drefniadau sydd eisoes ar waith, fel grwpiau cymunedol, sefydliadau ffermio a chominwyr, grwpiau gwirfoddol, rhwydweithiau gwydnwch lleol a phartneriaethau rheoli tir.

Arferion Gorau Rhyngwladol

Mae llawer o wledydd – fel Ffrainc, Sbaen, Gwlad Groeg, Canada, Awstralia a De Affrica – lle mae'r risg o danau gwyllt oherwydd yr hinsawdd yn uwch o lawer na Chymru, ac sydd o bosibl wedi datblygu mwy ar eu trefniadau i atal tanau gwyllt ac ymateb iddynt. Rydym eisoes wedi trefnu i uwch gadlywydd digwyddiadau tanau gwyllt o Awstralia ddarparu hyfforddiant i Wasanaethau Tân ac Achub Cymru. Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol feddwl am hyd a lled y dysgu o'r awdurdodaethau hyn ar hyn o bryd, a'r potensial i wella hynny.

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – Tanau Gwyllt

22 Hydref 2026

Cydlynu Strategol

Cafodd y gwaith o gydlynu'r ymateb amlasiantaeth i danau gwyllt yr haf yma ei wneud drwy drefniadau sydd eisoes ar waith sy'n cynnwys fforymau gwydnwch lleol a grwpiau cydlynu strategol a thactegol arbennig, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Roedd yn ymddangos bod hyn wedi gweithio'n dda, gyda heriau a rhwystrau mawr yn cael eu canfod a'u datrys yn gyflym. Fodd bynnag, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol a oes unrhyw wersi i'w dysgu ac a oes angen gwella'r trefniadau hyn.

Fel y nodwyd uchod, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi gofyn am gymorth milwrol i'r awdurdod sifil (MACA) ganol mis Awst. Proseswyd a chytunwyd ar hyn yn gyflym: cafodd staff milwrol eu canfod, eu briffio a'u lleoli yno cyn pen 24 awr o gyflwyno'r cais. Dewis olaf yw MACA wrth reswm, ac mae terfyn ar gapasiti a gallu ein lluoedd arfog ac mae iddo hefyd gost ariannol. Unwaith eto, roedd yn ymddangos bod y broses yn gweithio'n dda, ond gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried a oes unrhyw wersi i'w dysgu o ran deall rôl y lluoedd arfog wrth ymateb i ddigwyddiadau sifil, a'r prosesau i ofyn am adnoddau milwrol a'u defnyddio.